

Annwyl gydweithiwr,

Mae CGGC eisoes wedi darparu ymatebion sylweddol i'r ddau ymgynghoriad blaenorol ynghylch y Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

O ran yr ymgynghoriad diweddaraf, nid ydym yn credu bod y rhan fwyaf o'r materion yn uniongyrchol berthnasol i'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Fodd bynnag, hoffem godi rhai pwyntiau.

O ran y cwestiwn ynghylch y ffaith na ddarperir ar gyfer deddfwriaethau eraill yn y rheoliadau; wrth gyflawni eu swyddogaethau sy'n ymwneud â chynlluniau datblygu strategol a chynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol, rhaid i Gyd-bwyllgorau Corfforedig ddilyn gofynion Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn sicrhau nad yw'r penderfyniadau y maen nhw'n eu gwneud yn llesteirio cynnydd Cymru ar gyflawni'r saith nod llesiant. Rhaid hefyd cael cwmipas i gynnwys deddfwriaethau i ddod yn y rheoliadau – er enghraifft, pe bai'r Bil Aer Glân (Cymru) yn dod yn ddeddf yn hwyr neu'n hwyrach, rhaid diwygio rheoliadau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig er mwyn sicrhau bod y Cyd-bwyllgorau hefyd yn dilyn y Ddeddf hon.

O ran y cwestiwn ynghylch y dull o graffu ar Gyd-bwyllgorau Corfforedig a chadw llygaid arnynt, rydym yn croesawu bwriad y Gweinidog i gynyddu cydweithio a chanolbwyntio ar atebolrwydd democrataidd ar draws y strwythurau hyn. Mae cyfle go iawn i ymwreiddio tryloywder, atebolrwydd a chyfranogiad yn y Cyd-bwyllgorau Corfforedig, gan gynnwys o fewn unrhyw fesurau craffu.

Er ein bod yn cydnabod yr angen i gynnwys y prif gynghorau cyfansoddol yn y broses graffu (naill ai'n unigol neu drwy gydbwyllgor trosolwg a chraffu), dylai fod rhyw broses o gynnwys y sector gwirfoddol yn y gwaith craffu ar y Pwyllgorau hyn er mwyn cefnogi atebolrwydd democrataidd. Un o rolau'r sector gwirfoddol yw dwyn penderfynwyr i gyfrif, ac ni ddylai'r strwythurau hyn fod yn eithriad.

Er mwyn lleihau'r datgysylltiad rhwng dinasyddion a phenderfynwyr, rhaid i awdurdodau sicrhau eu bod yn ymgysylltu ac yn ymgynghori'n briodol â'r rheini a fydd yn cael eu heffeithio gan eu penderfyniadau. Croesawir yr argymhelliad i Gyd-bwyllgorau fod yn ddarostyngedig i adran 62 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Rhan 6 Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru). Byddai hyn yn helpu i liniaru ychydig o'r datgysylltiad hwn drwy osod gofyniad ar Gyd-bwyllgorau i ystyried safbwyntiau'r rheini sy'n byw ac yn gweithio yn ardaloedd yr awdurdod lleol, ar unrhyw fater sy'n cael ei ystyried gan y Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Rydym yn fwy na bodlon siarad ag unrhyw swyddogion, Gweinidogion, Aelodau Pwyllgor neu Aelodau o'r Senedd ynghylch materion sy'n codi o'r nodyn hwn, neu o'n hymateb blaenorol i'r ymgynghoriad ar y pwnc hwn.

Dymuniadau gorau

Jessica Williams

Rheolwr Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

jwilliams@wcva.cymru

David Cook
Swyddog Polisi
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
dcook@wcva.cymru

Rhagfyr 2021